

Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol – £10,000 i £250,000

[See all updates](#)

Mae Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ein galluogi i ariannu prosiectau sy'n cysylltu pobl a chymunedau â threftadaeth genedlaethol, ranbarthol a lleol y DU.

Diweddarwyd y dudalen ddiwethaf: 3 Tachwed 2023. [Gweld pob diweddariad.](#)

Pwysig

Nid ydym bellach yn derbyn ffurflenni ymholiad prosiect na cheisiadau am grantiau rhwng £10,000 a £250,000 o dan ein Fframwaith Ariannu Strategol presennol. Bydd y rhaglen hon yn ailagor ym mis Ionawr gydag arweiniad a ffurflenni Treftadaeth 2033 newydd. [Gweld pa ariannu sydd ar gael gennym.](#)

Trosolwg

Gan ddefnyddio arian a godir gan y Loteri Genedlaethol, mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ysbrydoli, yn arwain ac yn cefnogi treftadaeth y DU i greu newid cadarnhaol a pharhaol i bobl a chymunedau, nawr ac ar gyfer y dyfodol.

Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw ein rhaglen agored ar gyfer pob math o brosiectau treftadaeth yn y DU.

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer ceisiadau am grantiau o £10,000 i £250,000. Bydd yn dweud mwy wrthyfch am y rhaglen a'r mathau o brosiectau y gallwn eu hariannu.

Ai dyma'r rhaglen gywir i chi?

- A yw eich sefydliad am gysylltu pobl a chymunedau â threftadaeth yn y DU?
- A fydd eich prosiect treftadaeth yn para hyd at bum mlynedd?
- A oes angen grant o rhwng £10,000 a £250,000 arnoch?
- Ydych chi'n sefydliad dielw, yn berchennog preifat ar dreftadaeth neu'n bartneriaeth?

Os ydych yn cytuno gyda'r holl gwestiynau uchod, yna gallwch ymgeisio am Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Sanctsiynau Llywodraeth y DU

Mae'n rhaid i chi ddilyn yr holl ddeddfwriaeth a rheoliadau sy'n berthnasol i'ch prosiect - mae hyn yn cynnwys y [sanctsiynau economaidd presennol yn erbyn Rwsia](#).

Gwybodaeth bwysig

- Gofynion: ni ddylai eich prosiect ddechrau cyn i ni wneud penderfyniad a rhaid canolbwyntio ar dreftadaeth yn y DU.
- Dyddiadau cau: nid oes dyddiadau cau, felly gallwch wneud cais pryd bynnag y byddwch yn barod.
- Proses asesu: unwaith y byddwn yn derbyn eich cais a'r holl ddogfennau ategol cywir, byddwn yn asesu eich cais ac yn rhoi penderfyniad i chi ymhen wyth wythnos.
- Eich cyfraniad: ar gyfer ceisiadau o £100,000 i £250,000 mae'n rhaid i chi gyfrannu o leiaf 5% at gostau eich prosiect.

Nodiadau cymorth ymgeisio

Yn ein gwasanaeth 'Cael cyllid ar gyfer prosiect treftadaeth' newydd, gellir dod o hyd i nodiadau cymorth ac arweiniad wrth lenwi'r ffurflen gais. Cliciwch ar yr eicon 'i' i gael mynediad i'r rhain.

Darllen pellach

- [Derbyn grant o £10,000 i £100,000](#): sy'n dweud wrthy ch beth sydd angen i chi ei wneud os ydych yn llwyddiannus a bod gennych fwy o fanylion am ein gofynion
- [Derbyn grant o £100,000 i £250,000](#)
- [Telerau Safonol y Grant £10,000 i £100,000](#): mae'n amlinellu telerau ein grantiau.
- [Telerau Safonol y Grant £100,000 i £250,000](#)
- [Ein proses ymgeisio](#): canllaw cam wrth gam byr ar gyfer gwneud cais am Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol
- [Canlyniadau](#): yn nodi'r flaenoriaeth a chanlyniadau eraill a beth y maen nhw'n eu golygu
- [Canllawiau arferion da](#): cyngor ar ystod o bynciau i'ch helpu i gyflawni prosiect o ansawdd uchel

[Pan fyddwch yn barod, gwnewch gais ar ein porth ymgeisio](#)

Expand All accordions

Pwy all ymgeisio?

Gyda'r rhaglen yma, rydym yn derbyn ceisiadau gan:

£10,000–£100,000:

- ceisiadau gan sefydliadau dielw, perchnogion preifat treftadaeth a phartneriaethau

- dyddiadau cau: nid oes dyddiadau cau felly gallwch wneud cais pryd bynnag y byddwch yn barod
- proses asesu: unwaith y byddwn yn derbyn eich cais a'r holl ddogfennau ategol cywir, byddwn yn asesu eich cais ac yn rhoi penderfyniad i chi ymhen wyth wythnos

£100,000–£250,000:

- ceisiadau gan sefydliadau a phartneriaethau dielw dan arweiniad sefydliadau dielw
- dyddiadau cau: nid oes dyddiadau cau felly gallwch wneud cais pryd bynnag y byddwch yn barod
- proses asesu: unwaith y byddwn yn derbyn eich cais a'r holl ddogfennau ategol cywir, byddwn yn asesu eich cais ac yn rhoi penderfyniad i chi ymhen wyth wythnos
- eich cyfraniad: rhaid i chi gyfrannu o leiaf 5% o gostau eich prosiect

Dyma rai enghreifftiau o'r mathau o sefydliadau y gallwn eu hariannu:

- elusennau, ymddiriedolaethau a sefydliadau corfforedig elusennol
- grwpiau cymunedol a gwirfoddol
- cynghorau cymuned/plwyf
- cwmnïau buddiannau cymunedol
- sefydliadau ffydd neu eglwysig
- awdurdodau lleol
- sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus
- perchnogion treftadaeth preifat (er enghraifft, unigolion a sefydliadau masnachol)

Byddwn yn gofyn am gael gweld eich cyfansoddiad neu'ch dogfen lywodraethol (gweler Dogfennau ategol). Mae'n rhaid i chi gael o leiaf dau berson ar eich bwrdd neu bwyllgor rheoli nad ydynt yn gysylltiedig â gwaed neu briodas neu sy'n byw yn yr un cyfeiriad.

Os ydych yn berchennog preifat neu os yw perchennog preifat yn rhan o'ch prosiect, byddwn yn asesu a yw budd cyhoeddus yn drech nag unrhyw enillion preifat felly ystyriwch hyn yn eich cais.

Partneriaethau

Rydym yn eich annog i weithio gyda phobl eraill i ddatblygu a chyflawni eich prosiect. Os ydych yn bwriadu gweithio gyda sefydliad arall i gyflawni cyfran sylweddol o'ch prosiect, rydym yn eich cynghori i ffurfioli eich perthynas â chytundeb partneriaeth.

Os bydd eich partneriaid prosiect yn darparu nwyddau neu wasanaethau y telir amdanynt drwy ein grant, bydd angen i ni weld eich cytundeb partneriaeth fel rhan o'ch cais (gweler Dogfennau ategol).

Os ydych yn gwneud cais ar y cyd, bydd angen i chi benderfynu pa sefydliad fydd yr ymgeisydd arweiniol.

Bydd yr ymgeisydd arweiniol yn llenwi'r ffurflen gais ac, os byddwch yn llwyddiannus, y ffurflen derbyn y grant ac adrodd ar gynnydd. Fel arfer, rydym yn disgwyl i berchennog y dreftadaeth fod yn ymgeisydd arweiniol.

Os nad yw perchennog y dreftadaeth yn gwneud y cais, yna gofynnwn iddynt ymrwymo i delerau'r grant.

Nid ydym yn argymhell math neu fformat penodol o gytundeb partneriaeth. Mater i'r partïon sy'n ymwneud â phartneriaethau yw darganfod beth sydd orau iddynt.

Expand All accordions

Beth allwn ei ariannu?

Rydym yn ariannu prosiectau sy'n cysylltu pobl a chymunedau â threftadaeth genedlaethol, ranbarthol a lleol y DU.

Gall treftadaeth olygu pethau gwahanol i wahanol bobl. Gall fod yn unrhyw beth o'r gorffennol yr ydych yn ei werthfawrogi ac am ei drosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.

Fel canllaw, gallai hyn gynnwys:

- atgofion a phrofiadau pobl (a gofnodir yn aml fel 'hanesion llafar')
- traddodiadau diwylliannol (er enghraifft, straeon, gwyliau, crefftau, cerddoriaeth a dawns)
- natur (er enghraifft, cynefinoedd, rhywogaethau a daeareg)
- tirweddau naturiol a'r rhai wedi'u cynllunio fel parciau a gerddi
- archaeoleg gymunedol
- adeiladau, henebion ac amgylcheddau hanesyddol
- casgliadau o wrthrychau, llyfrau neu ddogfennau mewn amgueddfeydd, llyfrgelloedd neu archifau
- hanesion pobl a chymunedau neu leoedd a digwyddiadau
- treftadaeth ieithoedd a thafodieithoedd
- lleoedd a gwrthrychau sy'n gysylltiedig â'n hanes diwydiannol, morwrol a thrafnidiaeth

Ar lefel y grant hwn, gallwn hefyd ariannu gweithgareddau i gefnogi sefydliadau sydd am feithrin eu gallu neu gyflawni newid strategol sylweddol.

Gallai hyn gynnwys datblygu sgiliau neu wybodaeth newydd, archwilio modelau llywodraethu, arweinyddiaeth, busnes ac incwm newydd er mwyn gwella rheolaeth eich treftadaeth ar gyfer y tymor hir.

Os ydych yn gwneud cais am grant mwy, byddwn yn ystyried i ba raddau y mae eich prosiect arfaethedig yn helpu i ddiogelu ein buddsoddiad blaenorol pan fyddwn yn asesu gwerth am arian eich cais.

I gael gwybod mwy am y math yma o weithgaredd, darllenwch ein canllawiau cydnerthedd ar [ein gwefan](#).

Byddwn ond yn ariannu prosiectau sy'n:

- yn canolbwyntio'n glir ar dreftadaeth – gall hyn fod yn dreftadaeth genedlaethol, ranbarthol neu leol y DU
- mynd i'r afael â'r canlyniad Cynhwysiant gorfodol ac unrhyw ganlyniadau blaenoriaeth eraill fel y bo'n berthnasol: Gweler ein tudalen we [Canlyniadau](#) wedi'i diweddarau
- mynd i'r afael â'r gofyniad gorfodol ar gynaliadwyedd amgylcheddol: Gweler ein tudalen [Canlyniadau](#) wedi'i diweddarau i gael rhagor o wybodaeth am y gofyniad hwn
- ganddynt gynllun clir gyda dechrau, canol a diwedd diffiniedig
- sydd heb ddechrau
- a bydd yn para hyd at flwyddyn

Gall Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol gefnogi ystod eang o fathau o weithgarwch. Gallwn dalu am ystod eang o gostau prosiect uniongyrchol. Er enghraifft, gallai eich prosiect gynnwys:

- treuliau gwirfoddolwyr
- costau hyfforddi
- costau digwyddiadau (gan gynnwys llogi ystafelloedd, lluniaeth ac offer)
- gwaith cyfalaf
- atgyweirio a chynnal a chadw (refeniw)
- swyddi staff newydd
- ffioedd proffesiynol (er enghraifft, costau cyfreithiol)
- lleoliadau hyfforddi â thâl
- costau i wella mynediad i'ch treftadaeth
- gweithgareddau i'ch helpu i gryfhau eich sefydliad
- costau sy'n gysylltiedig â chymryd cyfrifoldeb newydd am dreftadaeth (er enghraifft, astudiaethau dichonoldeb)
- Adennill Costau Llawn
- allbynnau digidol
- atgyweirio a chadwraeth

Bydd yr arian yma'n cefnogi gweithgarwch a fydd yn mynd i'r afael â'n gofynion gorfodol o ran **cynhwysiant** a **chynaliadwyedd amgylcheddol**, ac, os yw'n berthnasol, [canlyniadau blaenoriaeth eraill 2022–2023](#).

Ni allwn ymdrin â'r canlynol:

- swyddi staff presennol neu gostau sefydliadol (oni gyfrifir drwy Adennill Costau Llawn). Os ydych yn symud aelod presennol o staff i swydd a grëwyd gan y prosiect hwn, neu'n ymestyn oriau aelod presennol o staff, gellir cynnwys hyn yng nghostau eich prosiect. Bydd angen disgrifiad swydd clir ac oriau penodol ar y swydd.
- statudol a/neu gyfrifoldebau cyfreithiol
- hyrwyddo achos neu gredoau sefydliadau gwleidyddol neu ffydd
- TAW adenilladwy
- costau ar gyfer unrhyw weithgaredd sydd wedi digwydd cyn dyfarnu grant

Yr Iaith Gymraeg

Os cynhelir eich prosiect yng Nghymru, mae'n rhaid i chi ystyried y Gymraeg ym mhob agwedd ar eich gwaith a dweud wrthym sut y byddwch yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r Gymraeg ac yn adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru. Bydd angen i chi ddangos sut y byddwch yn cynnig darpariaeth ddwyieithog yng nghyllideb a chynllun eich prosiect. Dylech gynnwys y gyllideb ar gyfer cyfieithu unrhyw ddeunyddiau cyhoeddus o dan y categori costau 'Arall' yn yr adran costau prosiect y ffurflen gais.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, ymholiadau, neu os oes angen cymorth arnoch, cysylltwch â cymorthcymraeg@heritagefund.org.uk.

Adennill costau llawn

Os ydych yn sefydliad yn y sector gwirfoddol, gallwn gwmpasu cyfran o orbenion eich sefydliad. **Gall cyllid i dalu cyfran o gostau cynnal eich sefydliadau, ochr yn ochr â chostau prosiect uniongyrchol, fod yn bwysig i'ch cynaliadwyedd. Os yw eich sefydliad yn gymwys, byddem yn eich annog i ystyried cynnwys adennill costau llawn yn eich cyllidebau.** Dylai costau fod yn gymesur â'r amser neu'r adnoddau a ddefnyddir ar gyfer eich prosiect. Gallwn hefyd dalu cyfran o gost aelod presennol o staff, ar yr amod nad ydynt yn gweithio ar y prosiect a ariennir mewn swydd newydd yn unig. Disgwylwn i'r cyfraniad hwn gael ei gyfrifo gan ddefnyddio Adennill Costau Llawn.

Yn ôl y sector gwirfoddol, rydym yn golygu sefydliadau sy'n annibynnol i'r llywodraeth ac y mae eu llywodraethu, eu cyllid a'u hadnoddau yn canolbwyntio'n wirfoddol. Er enghraifft, efallai y bydd gan sefydliad sector gwirfoddol fwrdd ymddiriedolwyr, cael ei ariannu gan grantiau a rhoddion, a dibynnu ar wirfoddolwyr i gyflawni eu nodau.

Ni allwn dderbyn ceisiadau sy'n cynnwys Adennill Costau Llawn gan sefydliadau'r sector cyhoeddus (er enghraifft, amgueddfeydd a ariennir gan y llywodraeth, awdurdodau lleol neu brifysgolion).

Mae canllawiau cydnabyddedig ar gyfrifo'r swm Adennill Costau Llawn sy'n berthnasol i'ch prosiect ar gael gan sefydliadau fel [Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol](#). Bydd angen i chi ddangos i ni sut rydych wedi cyfrifo eich costau, yn seiliedig ar gyfrifon cyhoeddedig diweddar. Yna bydd angen i chi ddweud wrthym ar ba sail yr ydych wedi dyrannu cyfran o'r costau i'r prosiect yr ydych yn gofyn inni ei ariannu, a byddwn yn asesu a yw hyn yn deg ac yn rhesymol.

Costau chwyddiant gwaith cyfalaf

Dylai ceisiadau ariannu gynnwys costau priodol i dalu chwyddiant gwaith cyfalaf a ragwelir yn ddigonol.

Mae chwyddiant ar gyfer prosiectau adeiladu yn debygol o barhau'n uchel am y dyfodol rhagweladwy. Dylai pob prosiect wneud darpariaeth briodol ar gyfer chwyddiant yn seiliedig ar amserlen y prosiect, ynghyd â ffactorau eraill y mae deunyddiau o'r fath yn cael eu defnyddio, gofynion llafur a lleoliad.

Gall ymgeiswyr gael mynediad at ddadansoddiad a rhagamcanion ar gyfer costau chwyddiant o ffynonellau megis y [Gwasanaeth Gwybodaeth Cost Adeiladu](#) ac ymgynghoriaethau gan gynnwys [Gardiner & Theobald Market Intelligence](#), [Turner & Townsend](#) a [Rider Levett Bucknall](#).

Perchnogion preifat treftadaeth

Mae gennym ganllawiau ar wahân os ydych yn berchennog preifat neu os yw perchennog preifat yn rhan o'ch prosiect. Mae'n rhaid i chi ei gwneud yn glir sut y bydd budd cyhoeddus eich prosiect treftadaeth yn drech nag unrhyw fudd preifat. Os ydych yn berchennog preifat ar dreftadaeth, ni fyddwn yn ariannu:

- gwaith y gellir yn rhesymol ystyried ei fod yn ddyletswydd statudol ar y perchennog
- prynu adeiladau neu unrhyw asedau treftadaeth
- adeiladu adeiladau newydd

Os yw eich prosiect yn cynnwys unrhyw waith cyfalaf, bydd angen i chi ddangos i ni fod eich prosiect:

- yn cynyddu mynediad y cyhoedd yn sylweddol ac ymgysylltu â'r cyhoedd â threftadaeth
- brwdfrydedd a chefnogaeth gyhoeddus glir
- angen buddsoddiad gan y Loteri Genedlaethol

Fel arfer, rydym yn disgwyl i berchennog y dreftadaeth gwblhau'r ffurflen gais ac, os byddwch yn llwyddiannus, ffurflenni derbyn y grant ac yn adrodd ar gynnydd. Os nad yw perchennog y dreftadaeth yn gwneud y cais, yna gofynnwn iddynt ymrwymo i delerau'r grant.

Cynlluniau grant cymunedol

Fel rhan o'ch prosiect, gallwch ofyn i ni gyfrannu tuag at gronfa o arian wedi'i neilltuo y gallwch ei defnyddio i ariannu grwpiau/sefydliadau eraill i gyflawni prosiectau bach ar wahân. Rydym yn galw'r grantiau hyn yn 'grantiau cymunedol'. Bydd y grantiau cymunedol hyn yn cyfrannu at nodau cyffredinol eich prosiect. Mae'n rhaid i unrhyw grantiau fel hyn ddangos gwerth da am arian, a dylai budd y cyhoedd fod yn fwy nag unrhyw enillion preifat. Byddwch yn rheoli'r gronfa ariannu, yn datblygu proses ymgeisio gyda phanel penderfynu ac yn monitro cynnydd. Rhaid i chi roi cyhoeddusrwydd i'r cynllun grant cymunedol hefyd fel ei fod yn hysbys ac yn agored i bawb.

Gallwch ddyfarnu grantiau i grwpiau cymunedol dielw neu berchnogion treftadaeth preifat (er enghraifft, perchnogion archifau, tir neu adeiladau). Gall y grantiau fod ar gyfer gwaith cyfalaf a gweithgareddau.

Rydym yn argymhell nad yw cyfanswm cronfa'r cynllun grant cymunedol yn fwy na chyfanswm o £200,000.

Dylech gyfyngu unrhyw grant unigol i:

- gweithgaredd: £10,000
- cyfalaf: £25,000

Efallai y bydd angen i rai prosiectau fynd y tu hwnt i'r terfyn er mwyn gwarchod treftadaeth sy'n allweddol i gymeriad ardal, er enghraifft, os ydych yn adfer adeilad fel rhan o gynllun treflun. Os oes angen cyllideb grantiau cymunedol fwy neu ddyfarniadau mwy ar eich prosiect i drydydd partïon unigol, bydd angen i chi ddweud wrthym am hyn yn eich ffurflen Datganiad o Ddiddordeb a chyfiawnhau hyn yn eich cais.

Os yw eich prosiect yn cynnwys grantiau cymunedol i sefydliadau neu unigolion ar gyfer gwaith cyfalaf i'r dreftadaeth y maent yn berchen arnynt, rhaid i'r grantiau hyn gael eu rheoli gan gytundeb rheoli a chynnal a chadw deng mlynedd yn y dyfodol.

Ni chaniateir caffael eitemau tir, adeiladau neu dreftadaeth o dan gynlluniau grant cymunedol.

Mae'n rhaid i unrhyw grantiau i drydydd partïon ddangos gwerth da am arian a dylai budd cyhoeddus fod yn fwy nag unrhyw fudd preifat.

Expand All accordions

Cyn i chi ymgeisio

Mae angen i bob un o'r prosiectau treftadaeth yr ydym yn eu cefnogi:

- canolbwyntio'n glir ar dreftadaeth – gall hyn fod yn dreftadaeth genedlaethol, ranbarthol neu leol y DU
- gyflawni un neu fwy o'r canlyniadau ar y dudalen hon, gan gynnwys yr un gorfodol
- mynd i'r afael â chynaliadwyedd amgylcheddol
- hyrwyddo rôl y Loteri Genedlaethol wrth gyflwyno'r prosiect
- cynnal gwerthusiad

Bydd y wybodaeth yn yr adran hon yn eich helpu i ystyried y pwyntiau hyn yng nghamau cynnar cynllunio eich cais.

Canllaw

Mae gennym lawer o wybodaeth ar ein gwefan i'ch helpu i reoli a datblygu eich prosiect.

Mae'r canlynol yn ddarlleniad hanfodol ar gyfer pob prosiect:

[Gwybodaeth am gydnabod eich grant](#)

- [Canllawiau gwerthuso](#)
- [Canllawiau cynaliadwyedd amgylcheddol](#)

Os yw eich prosiect yn cynnwys gwaith cyfalaf, dylech hefyd ddarllen y dogfennau canlynol ar ein gwefan:

- [Canllawiau cynllunio cadwraeth](#)

- [Canllawiau cynnal a chadw adeiladau](#)

Canlyniadau

Rydym yn disgrifio'r gwahaniaeth yr ydym am ei wneud gyda'n hariannu trwy set o naw canlyniad, sy'n cynnwys ein [chwe chanlyniad blaenoriaeth](#). Canlyniadau yw newidiadau, effeithiau neu fanteision sy'n digwydd o ganlyniad uniongyrchol i'ch prosiect.

Byddwn yn blaenoriaethu prosiectau treftadaeth a fydd yn: **hybu'r economi leol, yn creu swyddi ac yn annog datblygu sgiliau, yn cefnogi llesiant ac yn creu lleoedd gwell i fyw, gweithio ac ymweld â nhw.**

Disgwyliwn i bob prosiect ddangos eu bod yn cynnwys **cynaliadwyedd amgylcheddol hirdymor a chynhwysiant** yn eu cynlluniau.

Cofiwch, dim ond prosiectau sy'n canolbwyntio'n glir ar dreftadaeth y byddwn yn eu hariannu – gall hyn fod yn dreftadaeth genedlaethol, ranbarthol neu leol y DU.

Canlyniadau blaenoriaeth

- **Bydd ystod ehangach o bobl yn ymwneud â threftadaeth** (Canlyniad Gorfodol): Mae'n rhaid i bob prosiect a ariannu gennym gyflawni ein canlyniad gorfodol.
- Bydd y sefydliad a ariennir yn fwy gwydn
- Bydd gan bobl gwell llesiant
- Bydd pobl wedi datblygu sgiliau
- Bydd yr ardal leol yn lle gwell i fyw, gweithio neu ymweld
- Bydd yr economi leol yn cael hwb

Byddem yn eich annog i ganolbwyntio ar gyflawni un neu fwy o'n canlyniadau blaenoriaeth ar hyn o bryd. **Er enghraifft**, pe bai prosiect ond yn cyflawni'r 'canlyniad cyflwr' a'r canlyniad gorfodol – byddai'n llawer llai tebygol o gael ei gefnogi na phrosiect a oedd yn bodloni'r canlyniad gorfodol, ynghyd â chanlyniad blaenoriaeth arall.

Ein tri chanlyniad arall yw:

- Bydd treftadaeth mewn cyflwr gwell
- Caiff treftadaeth ei nodi a'i hegluro'n well
- Bydd pobl wedi dysgu am dreftadaeth, gan arwain at newid mewn syniadau a gweithredoedd

Bydd nifer y canlyniadau a gewch yn dibynnu ar yr hyn yr ydych am ei gyflawni a dylai fod yn gymesur â maint y grant yr ydych yn gofyn amdano neu ffocws penodol eich prosiect. Nid oes rheidrwydd i enwi mwy nag un, ac rydym yn eich annog yn gryf i beidio â hawlio mwy o ganlyniadau nag y credwch y gallwch eu cyflawni mewn gwirionedd.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ein canlyniadau ar dudalen [Canlyniadau a Chanllawiau Arfer Da](#).

Peidiwch â defnyddio'r eiconau cymorth sydd wedi'u gwreiddio yn Adran Canlyniadau'r ffurflen gais ar-lein. Dylech ddefnyddio'r canllawiau ymgeisio a'r dudalen [Canlyniadau](#) fel y prif ffynonellau gwybodaeth ddiweddaraf am y rhain.

Gofyniad Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Disgwyliwn i'r safonau uchaf o ran [cynaliadwyedd amgylcheddol](#) gael eu cyflawni gan yr holl brosiectau a ariennir gennym.

Rydym am i'n **holl brosiectau** wneud eu gorau glas i helpu i liniaru ac addasu i effeithiau ein hinsawdd sy'n newid ac i helpu natur i wella. P'un a yw ein cyllid yn gwarchod gwarchodfa natur, amgueddfa, parc cyhoeddus neu adeilad, byddwn yn disgwyl i brosiectau fanteisio ar y cyfle i greu manteision cadarnhaol i natur drwy, er enghraifft, greu clwydi ar gyfer ystumod, gan gynnwys toeau gwyrdd, darparu pyllau draenio naturiol a chynyddu plannu coed.

Rydym am i **bob math o brosiectau** treftadaeth, mawr a bach:

- gyfyngu ar unrhyw ddifrod posibl i'r amgylchedd
- cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd ac yn enwedig ar gyfer natur

Wrth gwrs, mae'n rhaid i brosiectau sicrhau nad yw unrhyw fesurau amgylcheddol yn cael effaith negyddol ar eich treftadaeth.

Bydd cynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol o fewn eich prosiectau o'r cychwyn cyntaf yn golygu bod eich prosiect yn debygol o fod yn fwy gwydn, yn gynaliadwy yn ariannol ac yn dod â manteision lluosog i bobl a'r gymuned.

Dylai'r mesurau a weithredwch fod yn briodol ar gyfer maint eich prosiect. Rydym yn darparu canllawiau ar [gynaliadwyedd amgylcheddol](#) ar ein gwefan.

Dylech hefyd feddwl am sut y byddwch yn gwerthuso eich mesurau cynaliadwyedd amgylcheddol ac yn sicrhau bod hyn yn rhan o strategaeth werthuso eich prosiect. Byddwn yn gofyn i chi nodi ac adrodd ar y camau yr ydych yn eu cymryd. Mae ein canllawiau ar yr effaith amgylcheddol yn rhoi rhywfaint o gyngor cyffredinol, a gallwch hefyd gael cymorth ymarferol gan y [rhwydwaith Addas i'r Dyfodol](#).

Ystyried risg

Bydd pob prosiect yn wynebu bygythiadau a chyfleoedd y mae angen i chi eu nodi a'u rheoli. Rydym am i chi fod yn realistig ynglŷn â'r risgiau y gallai eich prosiect a'ch sefydliad eu hwynebu fel eich bod mewn sefyllfa dda i'w rheoli a chyflawni'r prosiect yn llwyddiannus.

Rydym yn deall bod y cyd-destun y byddwch yn gweithio ynddo yn wahanol iawn yn ystod pandemig presennol COVID-19. Wrth asesu eich cais, byddwn yn llunio barn bwylllog ar y risgiau posibl i'ch prosiect a risgiau sefydliadol cyfredol – a byddwn yn edrych i weld a ydych wedi nodi'r rhain ac wedi dweud wrthym sut y byddwch yn lliniaru yn eu herbyn. Dylech hefyd ystyried costau wrth gefn yn ofalus o fewn eich cais.

Y mathau o risg a phroblemau y dylech eu hystyried yw:

- **ariannol** – er enghraifft, llai o gyfraniad gan ffynhonnell ariannu arall
- **sefydliadol** – er enghraifft, prinder pobl â'r sgiliau sydd eu hangen arnoch neu staff sydd eu hangen i weithio ar brosiectau eraill
- **economaidd** – er enghraifft, cynnydd annisgwyl yng nghost deunyddiau
- **technegol** – er enghraifft, darganfod lleithder annisgwyl ac eang
- **cymdeithasol** – er enghraifft, ymatebion negyddol i ymgynghori neu ddiffyg diddordeb gan eich cynulleidfa darged
- **rheoli** – er enghraifft, newid sylweddol yn nhîm y prosiect
- **cyfreithiol** – er enghraifft, newidiadau yn y gyfraith sy'n gwneud y prosiect yn anymarferol
- **amgylcheddol** – er enghraifft, anawsterau wrth ddod o hyd i ffynonellau pren o goedwigoedd a reolir yn dda

Hyrwyddo eich grant Loteri Genedlaethol

Mae'n rhaid i chi ymrwymo i gydnabod eich grant a hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol a dylech ddweud wrthym sut rydych yn bwriadu gwneud hyn yn eich ffurflen gais a'ch cynllun prosiect.

Gallwch ddod o hyd i syniadau ar gydnabod a hyrwyddo, a'r brandio rydym yn disgwyl i chi ei ddefnyddio, ar dudalennau [Sut i Gydnabod eich Grant](#).

Gwerthuso

Rydym yn argymhell eich bod yn cynnwys gwerthusiad o ddechrau eich prosiect. Mae ein tystiolaeth yn dangos mai'r gyllideb prosiectau mwy gofalus ar gyfer eu gwerthuso, yr uchaf yw ansawdd yr adroddiad terfynol. Rydym wedi argymhell isafswm gwariant ar werthuso a gallwch ddod o hyd i ganllawiau pellach ar hyn ar ein [gwefan](#).

Ar ddiwedd eich prosiect byddwn yn disgwyl rhywfaint o adborth gwerthuso, mewn dwy ran:

- eich adroddiad gwerthuso eich hun, a anfonwyd i mewn cyn i ni dalu'r 10% olaf o'ch grant
- Holiadur gwerthuso, o fewn blwyddyn i'w gwblhau. Gallwch weld y wybodaeth y byddwn am i chi ei hadrodd yn ein [canllawiau gwerthuso](#) ar ein gwefan.

Expand All accordions

Eich cyfraniad

Bydd eich cyfraniad yn dibynnu ar faint o grant yr ydych yn gofyn amdano.

Ar gyfer grantiau rhwng £10,000 a £100,000

Ar lefel y grant yma, nid oes arnom angen cyfraniad gennych ond dylech ystyried a allai cyllidwyr, sefydliadau neu bobl eraill gefnogi eich prosiect. Bydd hyn yn helpu i ddangos i ni fod pobl a

sefydliadau eraill wedi ymrwymo i'ch prosiect. Byddwn yn asesu a yw eich prosiect yn cynnig gwerth da am arian a byddwn yn ystyried eich cyfraniad.

Ar gyfer grantiau rhwng £100,000 a £250,000

Ar y lefel grant yma, gofynnwn i chi gyfrannu o leiaf 5% o gostau eich prosiect. Rydym yn disgrifio'r cyfraniad hwn fel 'cyllid partneriaeth' a gellir ei gynnwys mewn arian parod, cyfraniadau nad ydynt yn arian parod, cyfraniadau gwirfoddolwyr neu gyfuniad o'r rhain i gyd.

Cyfraniadau arian parod

Gallai hyn fod o gronfeydd wrth gefn eich sefydliad eich hun, rhodd gan gymwynaswr, grant gan gyllidwr arall neu gymorth arall a godir gan gyllid (er enghraifft, cyllid torfol).

Cyfraniadau nad ydynt yn arian parod

Mae hyn yn cynnwys unrhyw beth sydd ei angen arnoch ar gyfer eich prosiect nad oes rhaid i chi dalu amdano (er enghraifft, llogi ystafell neu offer). Dim ond os ydynt yn gostau prosiect uniongyrchol a allai fod wedi bod yn rhan o gyllideb eich prosiect y gallwn dderbyn cyfraniadau nad ydynt yn arian parod.

Cyfraniadau gwirfoddolwyr

Dyma'r amser y mae gwirfoddolwyr yn ei roi i gefnogi'r gwaith o gyflawni eich prosiect. Gallai hyn gynnwys gwaith gweinyddol, clirio safle neu weithio fel stiward mewn digwyddiad. Ni ddylech gynnwys costau ar gyfer amser pobl a fydd yn cymryd rhan yn eich gweithgareddau (er enghraifft, pobl sy'n mynychu gweithdy neu'n mynd ar daith dywys).

Rydym yn defnyddio cyfradd safonol o £20 yr awr i gyfrifo gwerth eich cyfraniadau gwirfoddolwyr.

Arian y Loteri Genedlaethol

Gallwch ddefnyddio arian gan ddsbarthwr arall o'r Loteri Genedlaethol i gyfrannu tuag at eich prosiect fel cyllid partneriaeth. Fodd bynnag, ni all hyn gyfrif tuag at eich cyfraniad lleiaf o 5%, y mae'n rhaid iddo fod yn cynnwys cyfraniadau o'ch ffynonellau eich hun neu ffynonellau eraill, heb gynnwys y Loteri Genedlaethol.

Expand All accordions

Sut byddwn yn asesu eich cais

Mae ein proses ymgeisio yn gystadleuol ac ni allwn ariannu pob cais o ansawdd da a gawn. I'ch helpu i ddatblygu eich syniad, rydym yn cynnig cyngor cyn i chi wneud cais, na fyddwn yn ei ddefnyddio wrth asesu eich prosiect.

Pan fyddwch wedi darllen y canllawiau ymgeisio hyn, gallwch ddweud wrthym am eich syniad drwy gyflwyno ffurflen ymholiad prosiect ar-lein. Byddwn wedyn yn cysylltu â chi o fewn deg diwrnod gwaith i roi gwybod i chi a ydych yn bodloni ein gofynion ac i gynnig rhywfaint o gyngor i chi i'ch helpu i ddatblygu eich prosiect ymhellach.

Unwaith y byddwch yn anfon eich cais ar-lein atom, byddwn yn gwirio bod popeth yn ei le a byddwn mewn cysylltiad i roi gwybod i chi pryd y gallwch ddisgwyl penderfyniad. Oni bai bod angen i ni wirio unrhyw beth gyda chi, mae'n annhebygol y byddwch yn clywed gennym eto nes i ni roi gwybod i chi am y penderfyniad.

Fel sefydliad sy'n rhoi arian cyhoeddus, rydym yn cynnal rhai gwiriadau ar y wybodaeth a roddwch i ni pan fyddwch yn gwneud cais (er enghraifft, efallai y byddwn yn gwirio eich hanes gyda ni neu'n cynnal gwiriadau hunaniaeth neu dwyll).

Y broses asesu

- Amser asesu: wyth wythnos. Gall yr asesiad o'n ceisiadau cyntaf gymryd ychydig yn hwy nag wyth wythnos wrth i ni drosglwyddo'n ôl i'n cylch rhoi grantiau arferol. (Noder: ni fyddwn yn gallu asesu eich cais nes ein bod yn derbyn yr holl wybodaeth ategol ofynnol.)
- cyfarfod penderfynu: cyfarfod misol o'r panel
- penderfynwr: Cyfarwyddwr Ardal neu Wlad

Pan fyddwn yn asesu eich cais, byddwn yn ystyried amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys:

- a yw eich prosiect yn berthnasol i dreftadaeth yn y DU
- yr anghenion a'r cyfleoedd y bydd eich prosiect yn mynd i'r afael â nhw
- pa mor gryf y bydd eich prosiect yn cyflawni ein [canlyniadau blaenoriaeth](#)
- gwerth cyffredinol am arian
- risgiau posibl i lwyddiant y prosiect, yn enwedig mewn perthynas ag effeithiau pandemig COVID-19 ar gyflawni prosiectau
- sut y bydd canlyniadau prosiectau'n cael eu cynnal
- eich agwedd at gynaliadwyedd amgylcheddol

Os asesir bod eich cais yn darparu gwerth isel am arian yna gellir ei wrthod yn gynharach yn ystod y cyfnod asesu, a byddwn yn rhoi gwybod i chi am hyn ar y pryd.

Y broses ymgeisio

Dylech ateb yr holl gwestiynau yn y ffurflen gais.

Dewiswch pryd i wneud eich cais yn ofalus. Peidiwch â rhuthro i gyflwyno cais cyn i chi fod yn barod, a gwnewch yn siŵr eich bod wedi meddwl drwy'r ffordd orau o lunio eich gweithgaredd a sut rydych yn mynd i'w reoli. Gwyddom y byddwn yn derbyn nifer uchel o geisiadau, a bydd angen inni flaenoriaethu lle gall ein buddsoddiad wneud gwahaniaeth sylweddol.

Y wybodaeth sydd ei hangen arnom

Bydd angen i chi wybod digon o fanylion am eich prosiect er mwyn gallu rhoi costau realistig i ni.

Mae'r adran isod yn amlinellu lefel y wybodaeth sydd ei hangen arnom i allu llunio barn am y canlyniadau y bydd eich prosiect yn eu cyflawni

Lefel o wybodaeth

Gweithgareddau

Gwybodaeth am y grŵp neu'r grwpiau o bobl y byddwch yn gweithio gyda nhw: dylech gynnwys amcangyfrifon o rifau. Dangoswch i ni eich bod wedi bod mewn cysylltiad â'r grwpiau hyn a'u bod yn awyddus i gymryd rhan.

Gwybodaeth am y gweithgareddau y bydd eich prosiect yn eu cyflawni: mewn rhai achosion byddwch yn gallu rhoi union fanylion y gweithgareddau y byddwch yn eu gwneud i ymgysylltu â phobl neu gymunedau (neu'r ddau). O leiaf, rhowch gynllun manwl i ni ar gyfer Blwyddyn 1 a/neu Flwyddyn 2 a disgrifiwch y broses y byddwch yn mynd drwyddi i ddatblygu eich prosiect ym Mlynedd 2 a/neu 3. Gallwch gynnwys costau sy'n gysylltiedig â'r gwaith datblygu hwn.

Gwybodaeth am ba bartneriaid y byddwch yn gweithio gyda nhw (os o gwbl): os byddwch yn datblygu partneriaethau yn ystod eich prosiect, dangoswch i ni eich bod wedi cysylltu'n gychwynnol a'u bod yn fodlon cymryd rhan.

Cyfalaf

Manylion y gwaith cyfalaf yr ydych yn bwriadu ei wneud, gan roi sicrwydd y bydd gennych ddigon o adnoddau i'w datblygu ymhellach, a chyllideb wrth gefn ddigonol.

Rhai cymhorthion gweledol sy'n dangos pa wahaniaeth y bydd y gwaith cyfalaf yn ei wneud, megis ffotograffau o sut mae'r dreftadaeth yn edrych nawr, a delweddau o sut y bydd yn edrych ar ddiwedd eich prosiect.

Yn dibynnu ar gymhlethdod eich prosiect, efallai y byddwn yn gofyn i chi gyflwyno: arolwg o'r dreftadaeth ffisegol (er enghraifft arolwg cyflwr o adeilad neu heneb hanesyddol), neu arolwg coeden; tystiolaeth sy'n dangos bod y gwaith rydych yn bwriadu ei wneud yn dilyn arfer da (er enghraifft llythyr o gefnogaeth gan eich Swyddog Cadwraeth neu'r corff statudol priodol).

Expand All accordions

Dogfennau ategol

Bydd angen i chi gyflwyno'r dogfennau ategol perthnasol, a amlinellir yn yr adran hon.

Ni fydd rhai o'r dogfennau hyn yn berthnasol i'ch prosiect a bydd y wybodaeth ychwanegol yn eich helpu i benderfynu a ydynt yn berthnasol.

Mae popeth sydd ei angen arnom i asesu eich cais ar y ffurflen gais a'r dogfennau ategol canlynol. Peidiwch â chyflwyno unrhyw ddogfennau ychwanegol, gan na fyddwn yn eu defnyddio mewn asesiad.

Dogfen lywodraethol (er enghraifft, cyfansoddiad)

Nid oes angen i ni weld eich dogfen lywodraethol:

- os ydych yn sefydliad cyhoeddus (er enghraifft, awdurdod lleol)
- rydych yn berchennog preifat ar dreftadaeth

Dylai eich dogfen lywodraethol gynnwys y canlynol:

- enw a nodau eich sefydliad
- datganiad sy'n atal eich sefydliad rhag dosbarthu incwm neu eiddo i'w aelodau yn ystod ei oes
- datganiad sy'n cadarnhau, os caiff eich sefydliad ei ddirwyn i ben neu ei ddiddymu, y bydd asedau'r sefydliad yn cael eu dosbarthu i sefydliad elusennol neu ddi-elw arall ac nid i aelodau'r sefydliad
- y dyddiad y cafodd ei fabwysiadu a llofnod eich cadeirydd (neu berson awdurdodedig arall)

Ni allwn dderbyn eich cais os nad yw eich cyfansoddiad yn cynnwys yr uchod.

Sicrhewch fod eich prosiect yn dod o fewn nodau eich sefydliad.

Mae'r Comisiwn Elusennau yn darparu [canllawiau](#) ar greu dogfen lywodraethol.

Cyfrifon

Dylech gynnwys eich cyfrifon archwiliedig diweddaraf neu gyfrifon wedi'u dilysu gan gyfrifydd.

Os ydych yn sefydliad sydd newydd ei ffurfio ac nad oes gennych set o gyfrifon archwiliedig, cyflwynwch eich tri datganiad banc diwethaf neu lythyr gan eich banc yn cadarnhau eich bod wedi agor cyfrif.

Nid oes arnom angen eich cyfrifon os ydych yn sefydliad cyhoeddus (er enghraifft, awdurdod lleol).

Cynllun prosiect (hanfodol)

Mae'n rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno cynllun prosiect.

Rydym yn argymhell eich bod yn defnyddio'r templed a ddarperir ar [ein gwefan](#).

Cytundebau partneriaeth (os yw'n berthnasol)

Os ydych yn bwriadu gweithio gyda sefydliad arall i gyflawni eich prosiect, mae'n arfer da cael cytundeb partneriaeth. Dylai'r ddogfen hon amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r partner a dylai pob parti ei llofnodi. Dylai'r cytundeb hwn adlewyrchu anghenion eich prosiect ac efallai y bydd angen i

chi geisio cyngor annibynnol.

Dim ond os bydd eich sefydliad partner yn derbyn taliadau grant i gyflawni rhan o'ch prosiect y mae angen i chi ddarparu eich cytundeb partneriaeth.

Nid ydym yn argymhell math neu fformat penodol o gytundeb partneriaeth. Mater i'r partïon sy'n ymwneud â phartneriaethau yw gweithio allan beth sydd orau iddynt.

Arolwg cyflwr

Os yw eich prosiect yn cynnwys gwarchod treftadaeth, rhaid i chi ddarparu arolwg cyflwr neu ddogfen briodol arall megis cynllun cadwraeth drafft neu amlinellol. Dylai'r ddogfen hon ddweud wrthym beth yw cyflwr presennol y dreftadaeth a'r gwaith sydd ei angen i ddychwelyd y dreftadaeth i gyflwr da.

Er enghraifft, os ydych yn bwriadu cadw cofeb ryfel leol, bydd angen i chi wybod beth yw'r cyflwr presennol a pha waith atgyweirio sydd ei angen. Dylai'r arolwg neu'r adroddiad hefyd nodi blaenoriaeth gymharol y gwaith a awgrymir a pha waith sydd fwyaf beirniadol ac y mae angen mynd i'r afael ag ef ar frys).

Disgrifiadau swydd (os yw'n berthnasol)

Os ydych yn bwriadu recriwtio aelod newydd o staff i helpu i gyflawni eich prosiect, gan gynnwys prentis, cyflwynwch ddisgrifiad swydd ar gyfer y swydd honno.

Noder: Mae'n haid i chi hysbysebu pob swydd staff newydd yn agored, oni bai eich bod yn ymestyn oriau aelod o staff sy'n bodoli eisoes neu'n symud aelod presennol o staff i swydd prosiect.

Briffiau ar gyfer gwaith a gomisiynir yn fewnol neu'n allanol (os yw'n berthnasol)

Mae briffiau'n disgrifio unrhyw waith rydych chi'n bwriadu ei gomisiynu yn ystod eich prosiect. Os ydych yn comisiynu gwaith (er enghraifft, gan artist neu bensaer) yna dylech gyflwyno briff.

Dylai'r briff ddisgrifio'r gwaith, faint o amser y byddant yn ei gymryd, faint y byddant yn ei gostio a'r sgiliau sydd eu hangen. Gallwch ddod o hyd i dempled briff ar ein gwefan.

Delweddau (dim mwy na chwech, os yw'n berthnasol)

Os yw'n berthnasol, rhowch ddelweddau sy'n helpu i ddarlunio eich prosiect.

Er enghraifft, os yw ffocws eich prosiect yn archif ffotograffiaeth leol, efallai yr hoffech ddarparu ychydig o ddelweddau o'r casgliad.

Os ydych yn ceisio gwella tirwedd neu ardal gadwraeth dylech gynnwys map o'r ardal sy'n dangos lleoliad yr holl brosiectau y byddwch yn eu cyflawni.

Llythyrau cymorth (dim mwy na chwech, os yw'n berthnasol)

Mae llythyrau cymorth yn ffordd dda o ddangos i ni eich bod wedi siarad â phobl eraill a bod ganddynt ddiddordeb ac wedi ymrwymo i'ch prosiect.

Anfonwch lythyrau o gefnogaeth atom gan y bobl sy'n ymwneud â'ch prosiect, yn hytrach na datganiadau cefnogol cyffredinol. Er enghraifft, os ydych yn bwriadu cyflwyno gweithdai mewn clybiau ieuenctid lleol yna bydd llythyr o gefnogaeth yn dangos i ni eu bod am gymryd rhan.

Os yw eich prosiect yn cynnwys gweithgarwch i ymgymryd â rheoli treftadaeth, anfonwch lythyr atom gan y perchennog presennol yn rhoi caniatâd i'r prosiect fynd yn ei flaen.

Os yw'n bosibl, dylai llythyrau fod ar bapur pennawd neu wedi'u llofnodi.

Cyfrifo adennill costau llawn (os yw'n berthnasol)

Os ydych yn cynnwys adennill costau llawn yng nghyllideb eich prosiect, mae'n rhaid i chi gynnwys dogfen sy'n amlinellu eich cyfrifiad.

Dogfennau perchnogaeth (os yw'n berthnasol)

Os ydych yn cynllunio unrhyw waith cyfalaf, neu'n bwriadu prynu tir/adeiladau/casgliadau, rhowch gopiâu o unrhyw ddogfennau perchnogaeth perthnasol (er enghraifft, dogfennau perchnogaeth y Gofrestrfa Tir, neu brydles neu bennau telerau).

Expand All accordions

Beth fydd yn digwydd ar ôl i ni asesu'ch cais

Os bydd eich cais yn llwyddiannus

Mae'n rhaid i chi aros i dderbyn Caniatâd i Ddechrau gennym cyn dechrau eich prosiect. Bydd angen i chi gyflwyno ffurflen ar-lein a rhoi'r canlynol i ni:

- manylion eich cyfrif banc (gorfodol)
- prawf o ofynion perchnogaeth/lesddaliad (ar gyfer pob prosiect cyfalaf, os oes unrhyw newidiadau wedi digwydd ers gwneud cais)
- manylion am ganiatâd statudol a/neu drwyddedau sy'n ofynnol ac a gafwyd (os yw'n berthnasol)
- cadarnhad o gyllid partneriaeth (os yw'n berthnasol)
- rhagolwg llif arian prosiect (dim ond ar gyfer prosiectau sy'n gwneud gwaith cyfalaf neu ar gyfer grantiau mwy na £100,000)
- strwythur rheoli prosiectau a dulliau ar gyfer dewis ymgynghorwyr, contractwyr a chyflenwyr (ar gyfer grantiau mwy na £100,000)
- amserlen prosiect neu raglen waith (ar gyfer grantiau dros £100,000)

Bydd angen cyfrif banc ar eich sefydliad. Mae'n rhaid i'r enw ar y cyfrif banc hwn gyfateb yn union i enw'r sefydliad sy'n gwneud y cais.

Os yw eich cais am grant yn is na £100,000, byddwn yn talu eich grant mewn tri rhandaliad:

1. byddwn yn rhoi 50% o'r grant ymlaen llaw i chi
2. unwaith y byddwch wedi gwario hanner cyntaf cyfanswm costau cymwys eich prosiect, byddwn yn rhoi'r 40% nesaf
3. byddwn yn talu 10% olaf eich grant pan fyddwch wedi gorffen eich prosiect ac wedi anfon adroddiad cwblhau terfynol a gwerthusiad prosiect atom

Os yw eich cais am grant yn uwch na £100,000, byddwn yn talu rhandaliadau o'n grant ar ôl i'r gwaith yr ydych yn gofyn i ni dalu amdano gael ei wneud. Byddwn hefyd yn cadw'r 10% olaf o'ch grant nes ein bod yn fodlon bod y prosiect wedi'i gwblhau a'ch bod wedi cyflwyno eich adroddiad cwblhau a'ch gwerthusiad.

Canran y taliad

Byddwn yn ariannu canran o gyfanswm costau eich prosiect. Os ydych chi neu sefydliad arall yn cyfrannu arian parod i'r prosiect, yna byddwn yn rhoi llai na 100% o gostau'r prosiect i chi. Rydym yn disgrifio'r ganran hon fel y 'ganran dalu'.

Dyma enghraifft lle mae canran y taliad yn 90%:

- cyfanswm costau'r prosiect: £50,000
- eich cyfraniad arian parod: £5,000
- eich grant £45,000 Canran y taliad: 90%

Byddwn yn talu 'canran y taliad' i chi o'r cyfanswm rydych yn ei wario ar y prosiect.

- Os ydych yn gwario llai ar y prosiect nag yr oeddech yn ei ddisgwyl, yna ni fyddwn yn talu'r grant llawn i chi
- Os ydych yn gwario mwy ar y prosiect nag yr oeddech yn ei ddisgwyl, yna ni fyddwn yn gallu rhoi mwy i chi na'r grant a ddyfarnwyd i chi

Dyma enghraifft, lle'r oedd y cyfanswm a wariwyd ar y prosiect yn llai na'r disgwyl:

- cyfanswm costau'r prosiect yn y ffurflen gais: £50,000
- canran y taliad: 90%
- cyfanswm a wariwyd ar y prosiect: £45,000
- cyfanswm rydym yn talu £40,500: (90% o £45,000)

Adrodd ar gynnydd

Ar gyfer grantiau o dan £100,000 byddwn yn disgwyl i chi adrodd ar gynnydd eich prosiect o leiaf unwaith yn ystod oes y prosiect ac unwaith y bydd wedi'i gwblhau ochr yn ochr â'ch adroddiad gwerthuso.

Os ydych yn gofyn am grant o dros £100,000 byddwn yn disgwyl i chi adrodd ar gynnydd eich prosiect o leiaf bob tro y byddwch yn gofyn am daliad mewn ôl-ddyledion. Bydd adroddiadau cynnydd fesul chwarter o leiaf, gan gynnwys ar ôl cwblhau gyda'r adroddiad gwerthuso.

Byddwn yn disgwyl tystiolaeth o weithgareddau a gwariant, fel lluniau, adroddiadau, anfonebau a derbynebau. Ceir gwybodaeth fanylach am ein proses fonitro yn y [canllawiau derbyn grant: £10,000 i £100,000](#) a [canllawiau derbyn grant: £100,000 i £250,000](#) ar ein gwefan.

Telerau'r grant

Byddwn yn gofyn i chi gydymffurfio gyda'n telerau grant Safonol, y gallwch ddod o hyd iddynt ar ein gwefan:

- [telerau safonol y grant £10,000 i £100,000](#)
- [telerau safonol y grant £100,000 i £250,000](#)

Mae hyd telerau'r grant yn dibynnu ar y swm a ddyfernir i chi, natur y sefydliad sy'n gwneud cais a'r math o brosiect.

Ar gyfer grantiau o £10,000 i £100,000, bydd telerau'r grant yn para o ddyddiad y Caniatâd i Ddechrau tan:

- **gweithgaredd:** y dyddiad y daw'r prosiect i ben (a elwir yn Ddyddiad Cwblhau'r Prosiect)
- **cyfalaf:** bum mlynedd ar ôl Dyddiad Cwblhau'r Prosiect os ydych yn sefydliad dielw neu 10 mlynedd ar ôl Dyddiad Cwblhau'r Prosiect os ydych yn berchennog preifat ar dreftadaeth
- **digidol:** bum mlynedd ar ôl Dyddiad Cwblhau'r Prosiect os ydych yn sefydliad dielw neu 10 mlynedd ar ôl i'r prosiect ddod i ben os ydych yn berchennog preifat ar dreftadaeth
- **caffael:** Os yw eich prosiect yn cynnwys prynu eitem, tir neu adeilad treftadaeth, bydd telerau'r grant yn para am gyfnod amhenodol. Os hoffech gael gwared ar yr hyn yr ydych wedi'i brynu yn y dyfodol, rhaid i chi ofyn am ein caniatâd a gallwn hawlio'n ôl y cyfan neu ran o'n grant.

Ar gyfer grantiau o £100,000 i £250,000, bydd telerau'r grant yn para o ddyddiad y Caniatâd i Ddechrau tan:

- **gweithgaredd:** Dyddiad Cwblhau'r Prosiect
- **cyfalaf:** 20 mlynedd ar ôl Dyddiad Cwblhau'r Prosiect
- **digidol:** 20 mlynedd ar ôl Dyddiad Cwblhau'r Prosiect
- **caffael:** Os yw eich prosiect yn cynnwys prynu eitem, tir neu adeilad treftadaeth, bydd telerau'r grant yn para am gyfnod amhenodol. Os hoffech gael gwared ar yr hyn yr ydych wedi'i brynu yn y dyfodol, rhaid i chi ofyn am ein caniatâd a gallwn hawlio'n ôl y cyfan neu ran o'n grant.

Os bydd eich cais yn aflwyddiannus

Mae'r broses asesu yn gystadleuol ac ni allwn ariannu'r holl geisiadau o ansawdd da a gawn. Os bydd eich cais yn aflwyddiannus, efallai y byddwn yn awgrymu eich bod yn gwneud cais arall.

Expand All accordions

Gofynion cyfreithiol a pholisi

Perchenogaeth

Disgwyliwn i chi fod yn berchen ar unrhyw eiddo (tir, adeiladau, eitemau treftadaeth neu eiddo deallusol) yr ydych yn gwario'r grant arno.

Tir ac adeiladau

Ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys gwaith ar dir ac adeiladau, mae'n rhaid i chi fod yn berchen ar y rhydd-ddaliad neu gael prydles sy'n bodloni ein gofynion:

Ar gyfer grantiau o £10,000 i £100,000:

- **sefydliad dielw:** mae'n rhaid fod gan y brydles pum mlynedd yn weddill ar ôl Dyddiad Cwblhau'r Prosiect
- **perchennog preifat:** rhaid i'ch prydles fod ag o leiaf ddeng mlynedd yn weddill ar ôl Dyddiad Cwblhau'r Prosiect
- **tir/adeiladau ym mherchnogaeth trydydd parti:** byddwn naill ai'n ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog ymrwymo i'n telerau ac amodau yn uniongyrchol gyda ni neu ei gwneud yn ofynnol i chi ymrwymo i gytundeb cyfreithiol rwymol gyda'r perchennog

Ar gyfer grantiau o £100,000 i £250,000 mae'n rhaid i chi fod yn berchen ar y rhydd-ddaliad neu gael prydles sy'n bodloni'r gofynion canlynol:

- mae'n rhaid i'ch prydles fod ag 20 mlynedd yn weddill ar ôl Dyddiad Cwblhau'r Prosiect
- os yw trydydd parti yn berchen ar y tir (a all gynnwys partner prosiect) byddwn naill ai'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ymrwymo i'n telerau ac amodau yn uniongyrchol gyda ni neu ei gwneud yn ofynnol i chi ymrwymo i gytundeb cyfreithiol rwymol gyda'r perchennog

Mae'n rhaid i bob prydles fodloni'r gofynion canlynol:

- nid ydym yn derbyn prydlesi gyda chymalau terfynu (mae'r rhain yn rhoi'r hawl i un neu fwy o bartion i'r brydles ddod â'r brydles i ben mewn rhai amgylchiadau)
- nid ydym yn derbyn prydlesi gyda fforffedu ar gymalau ansolfedd (mae'r rhain yn rhoi'r hawl i'r landlord ddod â'r brydles i ben os bydd y tenant yn mynd yn fetldalwr)
- rhaid i chi allu gwerthu ymlaen, isosod y cyfan neu ran, a morgeisio eich prydles ond os byddwn yn dyfarnu grant i chi, mae'n rhaid i chi gael ein caniatâd yn gyntaf i wneud unrhyw un o'r rhain

Os yw eich prosiect yn cynnwys prynu tir neu adeiladau, mae'n rhaid i chi brynu rhydd-ddaliad neu brydles gydag o leiaf 99 mlynedd arno.

Eitemau treftadaeth

Ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â phrynu eitem treftadaeth neu wneud gwaith cadwraeth i eitem dreftadaeth (er enghraifft, trêrn stêm neu baentiad), mae'n rhaid i chi brynu neu fod yn berchen ar yr eitem yn llwyr.

Ni all unigolion preifat na sefydliadau er elw ddefnyddio ein cyllid i gaffael eitemau treftadaeth.

Os ydych yn benthyca eitem/eitemau fel rhan o'r prosiect (er enghraifft, ar gyfer arddangosfa) a gofynnir i chi gyfrannu tuag at gostau cadwraeth yna efallai y byddwn yn derbyn y gost hon os yw'n rhan fach o'ch prosiect.

Efallai y bydd angen clymu perchnogion yr eitem/eitemau yn eich cytundeb partneriaeth, neu eu clymu i delerau grant Safonol, os dyfernir grant. Dylech gynnwys hyn yn eich ffurflen ymholiad prosiect, os credwch y bydd hyn yn berthnasol i'ch prosiect.

Os ydych yn cynllunio prosiect adeiladu cyfalaf gyda'r diben o storio neu arddangos casgliad nad ydych yn berchen arno, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i berchennog y casgliad gael ei glymu i delerau safonol y grant (ac unrhyw amodau ychwanegol a nodir yn y llythyr hysbysu am grant) os dyfernir grant. Dylech gynnwys hyn yn eich ffurflen ymholiad prosiect, os credwch y bydd hyn yn berthnasol i'ch prosiect.

Allbynnau digidol

Mae gennym ofynion penodol, a nodir yn nhelerau safonol y grant, ar gyfer 'allbynnau digidol' a gynhyrchir fel rhan o unrhyw brosiect.

Rydym yn defnyddio'r term 'allbwn digidol' i gwmpasu unrhyw beth rydych chi'n ei greu yn eich prosiect mewn fformat digidol sydd wedi'i gynllunio i roi mynediad i dreftadaeth a/neu i helpu pobl i ymgysylltu â threftadaeth a dysgu amdani.

Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys ffotograffau, testun, meddalwedd, cynnwys gwe ac apiau, cronfeydd data, modelau 3D, recordiadau sain a fideo. Nid yw eitemau a grëwyd wrth reoli'r prosiect, er enghraifft negeseuon e-bost rhwng aelodau'r tîm a chofnodion cyfarfodydd, wedi'u cynnwys yn y gofyniad.

Os byddwch yn derbyn grant rhwng £10,000 a £250,000, mae'n rhaid i bob allbwn digidol fod:

- 'ar gael' (mae'r allbynnau ar gael am ddim ar-lein a gallwch roi mynediad i'r ffeiliau digidol ar alw) am bum mlynedd o ddyddiad cwblhau'r prosiect
- 'gellir ei defnyddio' (mae'r allbynnau'n gweithredu fel y bwriadwyd ac yn cael eu diweddarau'n ddiweddaraf)
- 'agored' (mae allbynnau digidol wedi'u trwyddedu i'w defnyddio gan eraill o dan drwydded 'Priodoleddau 4.0 Rhyngwladol (CC-BY4.0)', ac eithrio cod a metadata, y dylid eu rhyddhau o dan Sail Gyhoeddus Cyflwyno oni bai ein bod wedi cytuno fel arall)

Os yw'r ymgeisydd arweiniol yn berchennog preifat ar dreftadaeth, bydd y Contract Grant yn **para am 10 mlynedd** o Ddyddiad Cwblhau'r Prosiect.

Yn yr achosion hyn, mae'n rhaid i bob allbwn digidol felly fod:

- 'gellir ei ddefnyddio' ac 'ar gael' ac yn 'agored' am 10 mlynedd o Ddyddiad Cwblhau'r Prosiect os byddwch yn derbyn grant dros £100,000, mae'n rhaid i bob allbwn digidol fod:
- 'ar gael' (mae'r allbynnau ar gael am ddim ar-lein a gallwch roi mynediad i'r ffeiliau digidol ar alw) am bum mlynedd o ddyddiad cwblhau'r prosiect
- 'gellir ei defnyddio' (mae'r allbynnau'n gweithredu fel y bwriadwyd ac yn cael eu diweddarau'n ddiweddaraf)
- 'agored' (mae allbynnau digidol wedi'u trwyddedu i'w defnyddio gan eraill o dan drwydded 'Priodoleddau 4.0 Rhyngwladol (CC-BY4.0), ac eithrio cod a metadata, y dylid eu rhyddhau o dan Ymroddiad Parth Cyhoeddus, oni bai ein bod wedi cytuno fel arall.

Rydym yn disgwyl:

- gwefannau i fodloni o leiaf safon hygyrchedd Sengl A W3C
- i chi ddefnyddio data ac offer agored lle bo modd
- i chi gyfrannu allbynnau digidol at gasgliadau treftadaeth priodol a phrosiectau gwybodaeth agored

Mae canllawiau ar gyfer prosiectau digidol i'w [gweld ar ein gwefan](#).

Swyddi caffael a staff

Mae'n rhaid i chi ddilyn ein canllawiau caffael. Fel trosolwg, rhaid i brosiectau sydd ag unrhyw nwyddau, gwaith neu wasanaethau gwerth mwy na £9,999 (ac eithrio TAW), gael o leiaf dri thendr/dyfnbris cystadleuol. Ar gyfer yr holl nwyddau, gwaith a gwasanaethau sy'n werth mwy na £50,000 (ac eithrio TAW), mae'n rhaid i chi ddarparu prawf o weithdrefnau tendro cystadleuol.?

Dylech fod yn adrodd ar y tendrau yr ydych wedi'u derbyn, ynghyd â'ch penderfyniad i dderbyn. Mae'n rhaid i chi roi rhesymau llawn os na fyddwch yn dewis y tendr isaf. Yn dibynnu ar natur eich prosiect, efallai y bydd gofyn i chi gydymffurfio â Deddfwriaeth Gaffael y DU.? ?

Os yw partner prosiect yn darparu nwyddau neu wasanaethau y telir amdanynt drwy'r grant, yna mae angen i chi ddweud wrthym pam eu bod wedi'u dewis a pham nad yw proses dendro agored yn briodol. Byddwn yn ystyried ai dyma'r ffordd orau o gyflawni eich prosiect ac yn disgwyl i chi ddangos gwerth am arian a bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol perthnasol.?

Nid isgontractwyr yw partneriaid. Byddant yn ymgymryd â rôl weithredol yn y prosiect a byddant yn rhan o'r prosiect. Byddant yn helpu i adrodd ar gynnydd, mynychu cyfarfodydd partneriaeth rheolaidd a chefnogi gwerthuso prosiectau. Byddwn yn gofyn am gael gweld eich cytundeb partneriaeth fel dogfen ategol gyda'ch cais.?

Mae'n rhaid i chi hefyd hysbysebu holl swyddi staff y prosiect yn agored, gyda'r eithriadau canlynol:

- mae gennych aelod o staff sydd â chymwysterau addas ar eich cyflogres eich bod yn symud i swydd prosiect. (Mae angen i chi ddarparu disgrifiad swydd ar gyfer y swydd hon o hyd)?
- rydych yn ymestyn oriau aelod o staff sydd â chymwysterau addas ar eich cyflogres fel y gallant weithio ar y prosiect. Yn yr achos hwn byddwn yn ariannu cost yr oriau ychwanegol a dreulir ar y prosiect a bydd angen ichi ddweud wrthym am eu rôl?

- os ydych yn fudiad gwirfoddol ac yn cynnwys cyfran o amser aelod o staff yn eich cyfrifiad adennill costau llawn?

Rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod y sector treftadaeth yn gynhwysol ac yn gynaliadwy. Rhaid i chi ddefnyddio'r gyfradd Cyflog Byw (a Chyflog Byw Llundain lle bo hynny'n berthnasol) ar gyfer holl staff y prosiect. Dangoswch dystiolaeth o gyllidebu ar gyfer cyfraddau Cyflog Byw yn eich costau a'ch cyllidebau staff.?

